CYFRES A10

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o lyfr yr Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 14: 1-21

ADNOD
ALLWEDDOL
1 Pedr 4: 16

Gwers 1 Anturiaethau Paul – Dioddef dros yr Arglwydd

Os byddwn ni'n gwneud rhywbeth drwg, gallwn ddisgwyl cael ein cosbi. Roedd Paul a'i ffrind Barnabas yn pregethu'r Newyddion Da am yr Arglwydd Iesu. Duw oedd wedi dweud wrthyn nhw am wneud hyn, ond roedd llawer o bobl yn dal i'w herlid. Roedden nhw'n barod i dderbyn hyn, gan wybod eu bod, wrth ufuddhau i Dduw, yn gwneud yr hyn oedd yn iawn.



C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

2

C Ar ôl cyrraedd Iconium, i ba adeilad aethon nhw?

1

Daeth llawer o Iddewon a Chenedl-ddynion i gredu, ar ôl iddyn nhw glywed Paul a Barnabas yn pregethu. Gwrthododd eraill gredu gan fynd ati i greu trafferthion.

C Beth wnaeth Paul a Barnabas pan ddigwyddodd hyn?

Atebwch CYWIR neu ANGHYWIR:-

Dyma nhw'n ysgwyd y llwch oddi ar eu traed a gadael. .....

Buon nhw yno am amser hir yn siarad am Iesu. .....

Cyflawnwyd nifer o arwyddion a rhyfeddodau drwyddyn nhw .....

Dim ond am gyfnod byr yr arhoson nhw yn Iconium .....

4

C **Roedd trigolion Iconium wedi'u rhannu'n ddwy garfan.**

Ysgrifennwch ar y baneri gyda phwy roedden nhw'n ochri.



2

Pan glywodd Paul a Barnabas am gynllwyn i'w lladd drwy eu llabyddio, ffodd y ddau oddi yno.



2

C **Ysgrifennwch enw'r dref lle'r aeth y ddau.**

Grid Geiriau

Atebwch y pos gan ddefnyddio Actau 14: 8-13 i'ch helpu.



1. Roedd y dyn wedi bod yn gloff o'i _____.
2. Gair arall am 'hapusrwydd'.
3. Dywedodd Paul wrth y dyn am wneud hyn.
4. Roedden nhw'n meddwl bod Paul a Barnabas yn _____.

5

C **Wedi i chi orffen y pos, ysgrifennwch y llythrennau sydd yn y blychau bras i gael gweld enw'r Person roedd Paul a Barnabas bob amser yn siarad amdano.**

1

Roedd trigolion Lystra yn credu'n bendant mai duwiau oedd Paul a Barnabas ac roedden nhw eisiau cyflwyno aberthau i'r ddau. Esboniodd Paul wrthyn nhw mai dynion cwbl gyffredin oedd Barnabas ac yntau.

1

C **Pwy ddywedodd Paul y dylen nhw ei addoli?** **Edrychwch ar adnod 15.**

Unwaith eto, cyrhaeddodd Iddewon anghrediniol (o ddinasoedd cyfagos) ac aeth y rhain ati i droi pobl Lystra yn erbyn Paul.

C **Sut driniaeth gafodd Paul ganddyn nhw?**

2

Os ydych chi'n Gristion, peidiwch cynhyrfu pan fydd pobl eraill yn eich cam-drin. Mae Paul yn esiampl dda i bob un sy'n dioddef oherwydd ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu. Er gwaethaf y driniaeth arw a gafodd, aeth Paul yn ôl i'r ddinas. Drannoeth, aeth yn ei flaen ar ei daith genhadol.
Os yw eich ffrindiau yn gwneud hwyl am eich pen am eich bod yn gredadun (rhywun sy'n credu) fel Paul a Barnabas, cofiwch fod yr Arglwydd Iesu yn Ffrind i chi. Mae Ef yn falch pan fyddwch yn dweud wrth eraill Amdano ac fe gewch nerth ganddo.

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 16: 1-3 a
2 Timotheus 1: 1-5

ADNOD
ALLWEDDOL
2 Timotheus 3:15

Gwers 2 Anturiaethau Paul – Ffrind am Oes

Gall ymweld â ffrindiau neu berthnasau rydych chi heb eu gweld ers peth amser fod yn brofiad cyffrous, yn arbennig os oes ganddyn nhw rywbeth newydd i'w ddweud wrthoch chi neu i'w ddangos i chi. Yn y wers hon, mae Paul yn cyfarfod unwaith eto â dyn ifanc ddaeth yn un o'i ffrindiau gorau.



C Defnyddiwch lythyren gyntaf pob llun i ysgrifennu enw'r ffrind.



_____ _____ _____ _____ _____ _____ _____ _____

2

Roedd e wedi dod i gredu yn yr Arglwydd Iesu, o bosibl pan ymwelodd Paul â'i ddinas am y tro cyntaf.

1

C Aildrefnwch y llythrennau i ganfod enw'r ddinas. YSATLR

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol i ganfod beth roedd Timotheus wedi ei wybod ers ei blentyndod.

2

Roedd ei fam a'i fam-gu (nain) yn gredinwyr, a gallwn fod yn siŵr mai nhw ddysgodd yr Ysgrythurau Sanctaidd iddo

C Beth oedd eu henwau? (Edrychwch ar 2 Timotheus 1)



2

Mae'n beth gwych cael dysgu am yr Arglwydd Iesu tra'ch bod chi'n dal yn ifanc. Mae'n dda gallu dysgu Amdano yn eich Beibl a gwrando'n ofalus pan fydd eraill yn siarad Amdano. Yn fwy na dim arall, gwnewch beth wnaeth Timotheus – credwch Ynddo fel eich Gwaredwr.

C **Gan ddefnyddio'r cliwiau isod a'r Darlleniadau o'r Beibl, cwblhewch y pos sy'n dilyn.**

1. Roedd mam Timotheus yn wraig _____. (Actau 16)
2. Roedd Paul yn cofio am Timotheus yn ei _____ddydd a nos. (2 Timotheus 1)
3. Cyfeiriodd Paul at Timotheus fel 'ei _____ annwyl'. (2 Timotheus 1)
4. _____ Paul i Dduw am Timotheus. (2 Timotheus 1)
5. _____ oedd ei dad. (Actau 16)
6. Roedd _____ gan Timotheus, ei fam-gu (nain) a'i fam. (2 Timotheus 1)



6

Pan gyrhaeddodd Paul yn yr ardal, clywodd gan gredinwyr eraill fod Timotheus yn tyfu yn ei ffydd fel Cristion. Roedd ganddyn nhw air da i'w ddweud amdano a buodd hyn yn anogaeth i Paul ofyn i Timotheus fynd yn gwmni iddo ar ei daith.

C **I ba ddinasoedd roedd y credinwyr hyn yn perthyn?**
Ticiwch yr ateb cywir.

1

Iconium a Derbe ☐ **Derbe a Lystra** ☐ **Lystra ac Iconium** ☐

C **Gorffennwch enwau'r lleoedd ar y map.**



3

C **Ysgrifennwch IE neu NA wrth ymyl y brawddegau canlynol:-**

3

Iddew oedd tad Timotheus. .....
Roedd Timotheus yn byw yn Iconium. .....
Daeth Timotheus yn ffrind i Paul. .....

Fel Cristion ifanc, roedd Timotheus yn dechrau dod yn gynorthwywr defnyddiol i Paul. Mae hyn yn golygu ei fod yn dysgu mwy a mwy am yr Arglwydd Iesu a hefyd ei fod yn tyfu'n gryfach fel Cristion. Os ydych chi'n Gristion, ydych chi'n tyfu ac yn cryfhau? Efallai eich bod chi'n gwanhau! Ydych chi'n byw mewn ffordd sy'n peri bod pobl siarad yn dda amdanoch chi?

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 16: 16-34

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 16: 31

Gwers 3 Anturiaethau Paul - Paul yn y Carchar

Roedd y Newyddion Da yn mynd ar led fel tân gwyllt ac wedi cyrraedd dinas bwysig Philipi. Yno, cyfarfu Paul a Silas â chaethferch oedd yn dod ag elw mawr i'w meistri drwy ddweud ffortiwn. Roedd hon yn mynnu gweiddi ar eu hôl.



C **Yn y swigen siarad, ysgrifennwch y geiriau roedd hi'n gweiddi.**

1

C **Ar ôl rhai dyddiau, beth ddywedodd Paul wrth yr ysbryd aflan?**

1

Pan ddywedodd Paul hyn, gadawodd yr ysbryd aflan hi yn syth. Doedd hi ddim yn gallu dweud ffortiwn o hyn ymlaen.

C **Gosodwch y digwyddiadau hyn yn eu trefn gywir, trwy rifo'r blychau 1, 2, 3 a 4.**

4

- ☐ Taflwyd Paul a Silas i garchar.
- ☐ Sylweddolodd meistri'r gaethferch nad oedden nhw'n gallu ei defnyddio i wneud arian o hyn ymlaen.
- ☐ Gorchmynnodd yr ynadon eu curo â ffyn.
- ☐ Llusgwyd Paul a Silas i'r farchnadfa a chafodd y ddau eu cyhuddo o greu trafferthion.

C **Llanwch y llythrennau coll (a, e, i, w neu y) i ddarganfod beth wnaeth ceidwad y carchar â Paul a Silas.**

2

B__r__odd __nt__u h__ __

__'r c__rch__r m__ __nol,

__ rh__ __mo'u tr__ __d __n __ c__ff__on.

C **Tynnwch lun bysedd y cloc i ddangos faint o'r gloch oedd hi pan oedd Paul a Silas yn gweddïo.**

1

C **Beth arall roedden nhw'n ei wneud yn y carchar?**
Ticiwch yr ateb cywir.

- ☐ Roedden nhw'n cysgu.
- ☐ Roedden nhw'n cysuro'i gilydd.
- ☐ Roedden nhw'n griddfan mewn poen.
- ☐ Roedden nhw'n canu emynau i Dduw.

1

C **Beth ddigwyddodd wedyn? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.**

Tornado

Daeargryn

Storm Fellt a Tharanau

1

Roedd ceidwad y carchar ar fin lladd ei hun oherwydd roedd e'n meddwl bod y carcharorion wedi dianc.

C **Beth oedd y geiriau waeddodd Paul? Ad-drefnwch y llythrennau i gael gwybod.**

_ _ _ _

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 17: 10-34

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 17: 30

Gwers 4 Anturiaethau Paul - Dinas Athen

Mae pobl, y dyddiau hyn, yn teithio'n gyflym a didrafferth am lawer o resymau - ar fusnes efallai, neu ar wyliau neu i ymweld â ffrindiau. Gwelwn Paul a'i gymdeithion nawr yn teithio i ddinasoedd eraill yn Ewrop i bregethu'r Newyddion Da am Iesu. Ar ôl gadael Philipi, aethon nhw i ymweld â sawl dinas, gan gynnwys Thesalonica.



C Edrychwch ar adnod 10 ac yna, yn y blwch ac ar y map, ysgrifennwch enw'r ddinas nesaf y daethant iddi. B

1

C Yn y 'Beibl Agored', ysgrifennwch y ddau beth wnaeth trigolion y ddinas hon pan glywson nhw Paul yn pregethu yn y synagog. Mae hyn yn esiampl dda i ni i gyd.



2

Credodd llawer, ond yn anffodus bu'n rhaid i Paul eu gadael oherwydd daeth yr Iddewon aflonyddus o Thesalonica i droi calonnau'r bobl yn ei erbyn.

C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob llun er mwyn gweld i ble'r aeth Paul nesaf.

_____ _____ _____ _____

1

Wrth i Paul aros am i Timotheus a Silas ymuno ag ef, aeth am dro o amgylch y ddinas.

C Beth oedd ymateb Paul pan welodd gymaint o eilunod?

1

C Llanwch y geiriau sydd ar goll yn y paragraff islaw.

Ni fedrai Paul gadw'r Efengyl am yr Arglwydd Iesu iddo'i hun. Felly, dechreuodd ei rhannu gyda'r _____ yn y synagog ac unrhyw un oedd yn cerdded heibio yn y _____ . Yna, dyma rai o'r _____ a'r _____ oedd yn athronwyr, neu'n athrawon, yn ei holi oherwydd ei fod yn pregethu'r Newyddion Da am _____ a'i _____ wrthyn nhw.

6

Daeth yr athrawon hyn â Paul i le o'r enw Yr Areopagus neu Fynydd Mawrth, lle'r oedd pob math o bynciau yn cael eu trafod. Roedden nhw'n awyddus i glywed mwy am y ddysgeidiaeth newydd hon. Dechreuodd Paul ei araith drwy sôn am allor a welsai yn Athen.

C Beth oedd wedi'i ysgrifennu ar yr allor? (adnod 23)



Yna, dechreuodd Paul esbonio pwy yw Duw.

1

C Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR wrth ymyl y brawddegau hyn:-

Duw wnaeth y byd a phopeth sydd ynddo. .....

Mae Duw yn byw mewn temlau o waith llaw. .....

Mae Duw fel aur, arian neu garreg. .....

Un diwrnod, bydd Duw yn barnu'r byd. .....

4

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

1

C Pwy sydd wedi'i ddewis gan Dduw i farnu'r byd? Darllenwch adnod 31 a rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir.

Alecsander Fawr **Cesar** **Yr Arglwydd Iesu Grist**

1

C Nodwch y ddau ymateb cyntaf a gafwyd pan soniodd Paul am yr atgyfodiad.

2

Cafwyd trydydd ymateb. Credodd rhai pobl a daethant yn Gristnogion. Beth yw eich ymateb chi? Gadewch i ni gofio hyn - os ydych chi'n credu yn yr Arglwydd Iesu byw, fyddwch chi ddim yn cael eich barnu am eich pechodau. Mae Duw am i chi ufuddhau i'w orchymyn i edifarhau'r funud hon. Os gwnewch hynny, cewch eich achub rhag y gosb mae eich pechodau yn eu haeddu.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120